# Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ(3)1215(FM) a gyhoeddwyd gan Rhodri Morgan, y Prif Weinidog, Medi 2008

**At Peter Black:**

Yn ystod Cwestiynau'r Prif Weinidog ar 8 Gorffennaf, dywedais y byddwn yn ystyried ymhellach y mater ynghylch cyhoeddi llythyr y Dirprwy Weinidog dros Adfywio i Lywodraeth y DU ynghylch Cyfrif Cerdyn Swyddfa'r Post.

Mae copi o'r llythyr hwn, dyddiedig 11 Mehefin 2008, sy'n nodi pryderon Llywodraeth Cynulliad Cymru ynghylch dyfodol rhwydwaith y swyddfeydd post yng Nghymru wedi'i amgáu er gwybodaeth i chi yn ogystal â chopi o'r ateb a dderbyniwyd gan James Plaskitt AS. Mae'r llythyr hwn hefyd ar gael ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru.

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ(3)1215(FM) a gyhoeddwyd gan Rhodri Morgan, y Prif Weinidog, Medi 2008

**At David Lloyd:**

Yn ystod Cwestiynau'r Prif Weinidog ar 8 Gorffennaf, dywedais y byddwn yn rhoi manylion y meini prawf y mae Swyddfa'r Post Cyf yn eu defnyddio i nodi pa swyddfeydd post fydd yn cael eu cau o dan ei rhaglen Newid Rhwydwaith os oedd yr ateb a roddais ichi yn y Cyfarfod Llawn yn anghywir.

Rwy'n deall bod Swyddfa'r Post Cyf wedi paratoi eu cynlluniau gan ddefnyddio meini prawf mynediad gofynnol sydd wedi'u pennu gan Lywodraeth y DU. Y canlynol yw'r meini prawf hynny:

- yn genedlaethol, 99% o'r boblogaeth yn byw o fewn 3 milltir i gangen o Swyddfa'r Post a 90% o'r boblogaeth yn byw o fewn milltir i'r gangen agosaf o Swyddfa'r Post;
- 99% o'r boblogaeth sy'n byw mewn ardaloedd trefol difreintiedig yn byw o fewn milltir i Swyddfa'r Post;
- 95% o'r holl boblogaeth drefol yn byw o fewn milltir i gangen o Swyddfa'r Post;
- 95% o'r holl boblogaeth wledig yn byw o fewn 3 milltir i gangen o Swyddfa'r Post;

Rwy'n deall y defnyddir y maen prawf canlynol wrth ystyried pob rhanbarth cod post unigol, gan sefydlu'r lleiafswm o bobl sy'n rhaid iddynt eu gwasanaethu ar lefel leol iawn:

- 95% o'r boblogaeth sy'n byw o fewn rhanbarth y cod post yn byw o fewn 6 milltir i gangen o Swyddfa'r Post

Wrth fynd ati i ddatblygu'r trefniadau ar gyfer pob Cynllun Ardal, mae Swyddfa'r Post Cyf yn ystyried nifer o ffactorau gan gynnwys cyfyngiadau daearyddol fel afonydd, mynyddoedd a chymoedd. Yn ogystal, maent yn ystyried y gwasanaethau trafnidiaeth cyhoeddus sydd ar gael yn yr ardal, os yw pobl yn gallu cyrchu gwasanaethau mewn swyddfeydd post allweddol (peiriannau twll yn y wal er enghraifft), y ddemograffeg leol a'r effaith ar yr economïau lleol.

Mae Swyddfa'r Post Cyf hefyd yn ystyried pa mor agos yw'r swyddfeydd post y maent yn ystyried eu cau i swyddfeydd post cyfagos ac yn ystyried nifer y cwsmeriaid sy'n defnyddio'r gangen y maent yn bwriadu ei chau ac os byddai'r gangen agosaf o Swyddfa'r Post yn gallu ymdopi â chynnydd yn nifer y cwsmeriaid sy'n defnyddio eu gwasanaethau.

**Gwybodaeth ychwanegol at y ddadl ar y Cynllun Gofodol a gyhoeddwyd gan Andrew Davies, y Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus**

**At Nick Ramsay:**

Yn y Cyfarfod Llawn ar 8 Gorffennaf, sonioch am nifer yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar y Sefyllfa Ddiweddaraf yn 2008.

Rydym wedi cynnal chwe chynhadledd ranbarthol ledled Cymru—gyda gormod o geisiadau i fynychu pob un ohonynt. Hefyd cynhaliwyd nifer o gyfarfodydd gyda grwpiau allweddol, gan gynnwys busnesau, plant a phobl ifanc, y sector gwirfoddol a'r gymuned gynllunio. Daeth oddeutu 1,000 o bobl i'r digwyddiadau hyn, gan gynrychioli ystod eang iawn o grwpiau. Mae modd mesur y diddordeb mawr yn y digwyddiadau hyn o'r ffaith mai drafft yr ymgynghoriad oedd y ddogfen i'w lawrlwytho'n fwyaf aml o wefan Llywodraeth y Cynulliad am ddau fis yn olynol.

Daeth 117 o ymatebion ffurfiol i law, ond mae hyn yn galonogol yn hytrach na siomedig—mae'n adlewyrchu llwyddiant ein hagwedd bersonol. Cododd y bobl a ddaeth i'r digwyddiadau ymgynghori faterion pwysig. Rydym wedi ystyried pob un o'r rhain yn ofalus iawn a chaiff llawer ohonynt eu hadlewyrchu yn y ddogfen derfynol.

Yng ngoleuni'r gwelliant y cynigiodd eich plaid yn ystod y drafodaeth, hoffwn bwysleisio pa mor bwysig yn ein barn ni yw cyfathrebu'n llawn â phob grŵp sydd â diddordeb. Rydym eisoes wedi datblygu cysylltiadau da â grwpiau allweddol, gan gynnwys rhai yn y sector preifat. Gan ystyried hyn, ni fyddai diben sôn am un grŵp yn arbennig.

**Gwybodaeth ychwanegol at y ddadl ar y Cynllun Gofodol a gyhoeddwyd gan Andrew Davies, y Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus**

**At Michael German:**

Yn y Cyfarfod Llawn ar 8 Gorffennaf, holoch am amserlen cyflawni Cynllun Gofodol Cymru.

Mae gorwelion y cynllun yn ymestyn dros ugain mlynedd ac mae'n nodi'r heriau allweddol ar gyfer y pum mlynedd nesaf. Fel yr esboniais, rydym yn datblygu set o fframweithiau cyflawni cenedlaethol a rhanbarthol a fydd yn cael eu cyhoeddi yn yr hydref. Bydd y rhain yn cael eu hintegreiddio'n llawn â'i gilydd; byddant yn canolbwyntio ar y blaenoriaethau allweddol ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Rydym wedi ymrwymo i lunio adroddiadau o'r flwyddyn nesaf ymlaen, a byddant yn cefnogi'n cynnydd ar lefel ardal ac ar lefel genedlaethol, yn ogystal â diweddaru'r blaenoriaethau.

Sonioch hefyd am y sylw y mae'r cynllun yn ei roi i'r newid yn yr hinsawdd. Caiff ymrwymiad Llywodraeth y Cynulliad i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd ei adlewyrchu yn Cymru'n Un ac nid wyf yn diystyru'r her hon o gwbl. Mae'r Sefyllfa Ddiweddaraf yn ei gwneud yn glir bod angen cydweithio i fynd i'r afael â sgil effeithiau'r newid yn yr hinsawdd a gweithio yn erbyn ei effeithiau yn y dyfodol. Ond mae angen darllen hyn ar y cyd â dogfennau allweddol eraill, fel ein Strategaeth Drafnidiaeth a Strategaeth yr Amgylchedd. Mae'r ddwy strategaeth yn canolbwyntio ar ddatblygu'r ymddygiad cynaliadwy y mae ei angen i ymateb i'r newid yn yr hinsawdd. Yn wir, mae gwaith i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd eisoes yn mynd rhagddo ym mhob maes polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Yn olaf, holoch am y cysylltiadau rhwng Cynllun Gofodol Cymru a chynllunio'r amgylchedd morol. Mae llywodraeth y DU wedi cyhoeddi Mesur Morol drafft. Os caiff ei ddeddfu, bydd

yn cyflwyno system o gynllunio morol, gan ystyried pob gweithgaredd a phob sector, ac yn amlinellu fframwaith strategol i reoli’r maes morol yn ei gyfanrwydd. Mae fy swyddogion Cynllun Gofodol Cymru eisoes yn gweithio’n agos gyda chydweithwyr cynllunio morol. Mae disgwyl iddynt gydweithio fwyfwy yn y dyfodol wrth i Lywodraeth Cynulliad Cymru ddatblygu’i chynigion ar gyfer cynllunio gofodol morol.